Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Negeseuon Allweddol

o'r
cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 10 Chwefror
2022

- Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd gydag arweinwyr diogelu ar draws y rhanbarth i drafod casglu data, a sut yr ymdrinnir ag adroddiadau diogelu i gychwyn. Roedd hyn mewn ymateb i Adolygiad Thematig y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol o Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

- Adroddiadau ar y prif bwyntiau wedi eu derbyn gan yr holl is-grwpiau Bwrdd yn amlygu cynnydd gyda phecynnau gwaith presennol yn ymwneud â blaenoriaethau'r Bwrdd. Trafodaethau ynghylch diffyg presenoldeb gan rai asiantaethau ac ymdriniwyd ag absenoldeb Cadeiryddion.

- Roedd pecynnau gwaith eraill a drafodwyd yn cynnwys y gwaith Cenedlaethol yn ymwneud â'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a'r oedi gyda'r ymgynghoriad a gweithredu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid.

- Adroddiad a gyflwynwyd mewn perthynas ag adolygiad i achos unigolyn ifanc a fu'n aros dros dro ar hyd a lled Cymru a Lloegr. Roedd yr adolygiad yn edrych ar y broses bontio rhwng y gwasanaethau plant ac oedolion ac roedd yn nodi'r risgiau cysylltiedig â chamfanteisio troseddol a rhywiol.